# Cofnodion Cyfarfod 2/2/2023

**Presennol:** Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Sion McGuinness, Tony Parry, Eric Williams, John C Williams
Dilwyn Morgan, Cyngor Gwynedd Lis Puw *(Clerc)*.

**Ymddiheuriadau:** Clare Mackintosh, Moira Mai

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer, a wnaeth estyn llongyfarchiadau'r Cyngor i Glwb Pêl Droed Y Bala sy'n bencampwyr Cymru ar ôl ennill Cwpan Nathaniel, a diolchodd hefyd am waith Academi'r Clwb. Llongyfarchodd hefyd Clwb Rygbi'r Bala am drefnu cyngerdd arbennig iawn a oedd yn cynnwys sêr y West End a ddaeth adre i rannu'r llwyfan gyda thalentau lleol eraill.
   Diolchodd i'r Dirprwy Faer am gynrychioli'r Cyngor ym mrecwast UAC er budd y DPJ Foundation er budd iechyd meddwl y sawl sy'n gweithio yn y sector amaethyddol.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5/1/23.
4. **Materion y Clerc:**
   i. Arwydd Y Bala: diolchodd yr aelodau i 'r swyddog o NMWTRA am baratoi'r cynllun ond dymunwyd
      a. Tŵr Capel Tegid yn rhy debyg i saeth yn arwyddo i fyny
      b. Holi a ydyw'n bosib gwneud y trên bach yn fwy diffyniedig
      c. Cynnwys **Y – Croeso Y Bala Welcome**

   ii. Awgrymwyd lleoliadau addas i finiau baw ci:
      a. Y Grin – wrth y giât sy'n arwain at Gerrig yr Orsedd ar y chwith ar i ffordd fyny at yr Ystad Ddiwydiannol
      b. Cychwyn Llwybr Cae Tudur (rhwng cornel y Red Lion a cychwyn ystâd Bro Eryl.)
      c. Ar waelod ffordd Stryd y Fron, wrth y lloches bws newydd
      d. Yn ardal Loch Cafe
      e. Cychwyn Llwybr Cae Bach (rhwng maes parcio'r Plase ac ystâd Cae Bach)
      f. Cychwyn Ffordd y Felin (rhwng Awel y Coleg a'r Coleg)

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Dywedodd fod pwysau mawr ar Gyngor Gwynedd i ddarganfod arbedion a thoriadau, tra

ceisio parhau i warchod plant a'r henoed. Dywedodd fod Neuadd Buddug ar werth trwy dendar. Mae'r cynllun i godi tai fforddiadwy ar safle adeilad Ysgol Bro Tegid yn cael ei rwystro ar hyn o bryd gan bolisi Llywodraeth Cymru ar ffosffadau.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru -** derbyniwyd adroddiad Andrew Basford fod y gwaith yn tynnu at ei derfyn. Gofynnwyd i'r Clerc ail anfon y llythyr yn mynegi pryderon am ddiogelwch mewn mannau ar hyd yr afon. Bydd Tony Parry a John Caradog Williams yn trefnu lleoliadau a gosod y meinciau. Canmolwyd y gwaith sydd wedi ei gwblhau, yn arbennig y *bandstand*.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau

   i. Nadolig: mae'r Maer mewn trafodaethau gydag Adran y Priffyrdd am gost y trydan i'r goleuadau Nadolig.
   ii. Gwarchod y Cyhoedd mewn argyfwng: derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan Clare Mackintosh am y cydweithio sydd ei angen i greu Cynllun ar gyfer Y Bala. Roedd rhyfeddod nad oedd Encil yn Y Bala mewn argyfwng, yn arbennig o ystyried cymaint o bobl hŷn sydd yn yr ardal. Cytunwyd i gynnwys y mater ar Agenda'r cyfarfodydd nesaf.
   iii. Asedau: heb gyfarfod y mis hwn. Mae Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r broblem strwythurol yn nhoiled anabl y Grin.
   iv. Gwella adnoddau i drigolion: cynigodd y Clerc i ymuno gysa'r is-bwyllgor hwn pan y bydd yn cyfarfod.
   v. Bioamrywiaeth – mae adroddiad a chynllun yn cael ei baratoi.
   vi. Cyllid: heb gyfarfod y mis hwn.

*8.* **Materion Cynllunio**: *Dim*

9. **Materion Cyllid:**

   **i.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf yn y cyfrifon.
   **ii.** Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:
   Clwb Pêl-droed y Bala - bwrdd gwybodaeth y Cyngor **(£96)**
   CYTUNDEBAU:
   Clerc
   Llochesi
   iii. Lwfansau Cynghorwyr: eglurwyd y drefn ar gyfer gwneud taliadau, trwy cyd-weithrediad Hill & Roberts.

**10. Gohebiaeth:**

**i. Cyngor Gwynedd:**

a) Lleoliadau stondinau adeg ffair Y Bala: cytunwyd i Fiona Hopkins dynnu sylw'r Grwp Busnes i'r mater.

Cytunwyd i anfon bod y Cyngor o blaid stondinau ffair ar y Stryd:

a. Mae’r Ffair yn hanesyddol ac yn rhan o Siarter Y Bala
b. Mae’r Grîn eisoes yn llawn o stondinau
c. Mae lleoli’r stondinau ar y Grin yn beryglus iawn i gerddwyr (a phlant) oherwydd culni’r palmant yn arwain at y Grin a stondinau’n gosod eu hunain ar hyd yr B4391
d. Mae defnyddio’r Grin ar gyfer y ffair yn cyfyngu ar y llefydd parcio sydd ar gael, gyda’r canlyniad fod pobl yn parcio mewn llefydd gwirion.
e. Mae lleoli’r stondinau ar y Grin yn cael effaith andwyol ar fusnesau lleol
f. Mae siopau lleol yn gallu manteisio ar y stondinau ar y Stryd Fawr i ddod a’u nwyddau hwythau allan i’r stryd.
g. Os ydy NMWTRA yn poeni am ddiogelwch, gellir rhoi arwyddion i rybuddio gyrwyr am y Ffair ar bob pen i’r Stryd Fawr, neu gellid gosod fyny system un ffordd ar hyd Heol y Domen a Heol Arennig i geir, gan ganiatáu i gerbydau trymach ddefnyddio’r Stryd Fawr.

ii. **Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn:** Nodwyd derbyn yr ymgynghoriad

iii. **Newyddlen Ionawr Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd:** Nodwyd derbyn.

iv. Derbyniwyd copi o lythyr oddi wrth trethdalwyr yn cwyno am y sefyllfa carthffosiaeth yn ardal Cae Bach, Glannau Tegid a’r Plase. Cytunwyd i anfon at Dwr Cymru i gefnogi’r cais am ateb byr a hir dymor i’r broblem hon.

v. **Heddlu Gogledd Cymru** – awgrymwyd lledaeni’r neges am Gronfa’r Comisiynydd, yn arbennig i fudiadau sy’n gweithio gyda’r ieuenctid.

vi. **Un Llais Cymru:** Nodwyd derbyn gwybodaeth am yr Hyfforddiant ar gael

vii. **Ambiwlans Awyr:** Nodwyd derbyn diweddariad am y sefyllfa.

**11. Partneriaeth Penllyn:** nid oedd adroddiad y mis hwn

12. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref -** roedd y materion a roddwyd hysbysiad ohonynt eisoes wedi eu trafod yn ystod y cyfarfod.

13. **Dyddiad** y cyfarfod nesaf: 2/3/23